
# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## Dathlu 24 mlynedd o Gŵyl Cefni



Mewn blwyddyn a welodd Gŵyl Cefni yn dathlu 24 mlynedd – seren y sioe unwaith eto, oedd Llangefni. Tywynnodd yr haul wrth i 5,000 ddod i fwynhau goreuon o'r sin gerddoriaeth Gymraeg, yn ogystal â chael blas ar gwrw a bwyd lleol.

Roedd côst o £5 am docyn am y tro cyntaf ers blynyddoedd – ond ni wnaeth hynny atal mynychwyr i'r ŵyl. A diolch i'r digwyddiad, daeth 6,000 o bobol yn ychwanegol i Langefni yn ystod pedwar diwrnod yr ŵyl. Er bod bron i 12 mis tan yr Ŵyl Cefni nesaf – mae gwaith eisoes wedi cychwyn i sicrhau cyllid ar gyfer y digwyddiad y flwyddyn nesaf.




Menter Môn sy'n gyfrifol am y digwyddiad, ond mae'n cael ei drefnu i raddau helaeth gan dîm bach o wirfoddolwyr, ac rydym bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd. Fel bob blwyddyn, mae'r tîm yn awyddus i ddiolch i bawb am fynychu ac i fusnesau'r dref am y croeso cynnes.

Eisiau gweld mwy? **Ewch i dudalen Instagram Gwŷl Cefni.**

## Grymuso Gwynedd: Effaith Gadarnhaol ar draws y Sir

Mis yma, mae deuddeg prosiect newydd wedi'u cyhoeddi i elwa o gronfa Grymuso Gwynedd. Mae dros 30 o gymunedau yn cael cymorth gyda chynlluniau sy'n anelu at gyflawni gwelliannau lleol – o Bennal i Fangor, ac o Benrhyn Llŷn i Benllyn.



Mae'r prosiect yn helpu cymunedau i fynd i'r afael â heriau drwy ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol i brosiectau lleol. Mae rhai o'r cynlluniau diweddar i dderbyn sêl bendith yn cynnwys datblygu cyfleusterau Clwb Pêl-droed Pwllheli, gŵyl amgylcheddol yng Nghaernarfon a chyd-gynhyrchu llyfr atgofion yn Llwyngwril er mwyn hybu pontio'r cenedlaethau a cryfhau perthnasau rhyngdiwylliannol.

**Darllenwch am brosiectau Grymuso Gwynedd yma.**




## Digwyddiad Trefi SMART Towns yn Wrecsam

Yn ddiweddar, cynhaliwyd cynhadledd gyntaf Trefi SMART Towns Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a BT. Roedd y digwyddiad yng nghanolfan ddiwylliannol, Tŷ Pawb yn garreg filltir bwysig wrth i ni geisio sicrhau bod Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar dechnoleg a data i adfywio canol trefi a chymunedau.

Mae Menter Môn wedi bod yn rhedeg prosiect trefi SMART ers ei lansio yn 2021. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, y nod yw hyrwyddo'r defnydd o ddata i ddod a bywyd newydd i strydoedd fawr ar draws y wlad trwy fonitro ymwelwyr a thraffig.

**Dysgwch fwy am y cynllun yma.**

## Cymro Vintage yn dod â gwedd Retro i Gaernarfon




Mae'r entrepreneur Dylan Jones wedi agor siop newydd gyda chymorth yr Hwb Menter. Mae Cymro Vintage, fel mae'r enw'n awgrymu, yn gwerthu dillad vintage, ac yn arbenigo yn benodol mewn brandiau chwaraeon.

Dechreuodd Dylan ar ei daith yn ei ystafell yn y brifysgol, yn profi'r farchnad ar-lein ac mewn digwyddiadau pop-yp ym Mangor a'r cyffiniau. Cymaint oedd y diddordeb, cychwynnodd feddwl o ddifri am sut i ddatblygu ei syniad i fusnes go iawn. Dyma pryd ddaeth Hwb Menter yn rhan o'r stori.

Gyda chanolfan yn M-SParc, Gaerwen a Hwb Arloesi, Porthmadog, mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag entrepreneuriaid i droi syniadau yn fentrau masnachol hyfyw. Trwy'r Hwb, derbyniodd Dylan arweiniad a chefnogaeth i symud Cymro Vintage i'r lefel nesaf. Enillodd gystadleuaeth Miwtini Stryd Fawr trwy'r Hwb, a chymerodd ran hefyd yn rhaglen Mentro Lwyddo'n Lleol.

O du ôl i gownter ei siop newydd, mae Dylan yn siarad am ei daith yn llawn balchder, a sut y rhoddodd y cymorth a gafodd gan yr Hwb Menter yr hyder a'r wybodaeth yr oedd ei angen arno, i lansio'r busnes yn swyddogol.

**Gwrandewch ar stori Dylan yma.**







## Llwyddiant i Morlais yng ngwobrau CEW Cymru

Cafodd Morlais gydnabyddiaeth yng ngwobrau Adeiladu Rhagoriaeth Cymru (CEW) a gynhaliwyd yn ddiweddar yng ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd. Cawsom ddwy wobr, un yng nghategori Gweithredu dros Hinsawdd a'r llall ar gyfer Prosiect Isadeiledd y Flwyddyn.

Mae Gwobrau CEW yn dathlu llwyddiannau'r diwydiant adeiladu Cymreig. Eleni, cytunodd y beirniaid fod Morlais yn sefyll allan am y ffordd arloesol rydyn ni am wneud y mwyaf o ynni llanw er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, yn ogystal â'n partneriaeth â Jones Bros Civil Engineers UK.

**Darllenwch y stori yma.**

## Dal y Llanw: Datblygwyr technoleg llanw yn cwrdd â chyflenwyr

Yn ddiweddar, daeth perchnogion busnes o ogledd Cymru i ddigwyddiad arbennig yn Is-orsaf Morlais ger Caergybi. Y digwyddiad cyntaf o'i fath, roedd yn gyfle i fusnesau hyrwyddo eu gwasanaethau i ddatblygwyr dyfeisiadau ynni llanw.

Daeth partneriaid cefnogi busnes a chynrychiolwyr o bedwar cwmni sydd wedi sicrhau angorfeydd ym Morlais hefyd i rannu gwybodaeth a chyngor ar sut y gall cwmnïau lleol fanteisio ar gyfleoedd. Roedd y datblygwyr yn awyddus i gadarnhau eu hymrwymiad i ddefnyddio cyflenwyr lleol pan fydd dyfeisiau ynni llanw yn cael eu hadeiladu a'u gosod yn y môr oddi ar arfordir Ynys Môn i gynhyrchu trydan.

Roedd cyfres o weithgareddau ymgysylltu ar hyd gogledd Cymru yn dilyn, gan roi cyfle pellach i fusnesau i gwrdd â'n tîm a dysgu mwy am sut i wneud y mwyaf o Morlais.

**Os ydych chi'n berchennog ar fusnes ac â diddordeb dysgu am sut i weithio gyda ni a datblygwyr ynni llanw, cofrestrwch i gael y newyddion diweddaraf a diweddariadau ar wefan Morlais.**





